# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 11

ATODOL

### 151 Cyfarwyddiadau

O ran unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn—

(a) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;

(b) rhaid ei roi'n ysgrifenedig;

(c) caniateir iddo wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol; a

(d) caniateir iddo wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol neu ardaloedd daearyddol gwahanol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 151 mewn grym ar 9.2.2011, gweler **a. 156(1)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 151.